**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelod o'r Cynulliad

16 Ebrill 2014

Annwyl Aelod

Yn ystod trafodaeth Ceidwadwyr Cymru ar wasanaethau bysiau ar 12 Mawrth, cytunais i roi sylw i broblem gyrwyr tacsis sy'n codi mwy ar deithwyr anabl a hefyd, beth yw'r drefn o ran rhoi trwydded a pha archwiliadau sy'n cael eu cynnal.

Nid yw'r Rheoliadau sy'n rheoli trwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat wedi cael eu datganoli a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth sy'n gyfrifol amdanyn nhw. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat i awdurdodau lleol Cymru a Lloegr.

Mae codi gormod ar deithwyr anabl yn anghyfreithlon. Mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu ddefnyddio eu hawdurdod i roi stop ar wahaniaethu anghyfreithlon. Rwyf wedi trefnu i'm swyddogion gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i archwilio'r mater difrifol hwn. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, fe gysylltaf â chi eto.



Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*